Gallwch roi'r deg canllaw canlynol ar waith mewn unrhyw fan – o ardd fawr wledig i flwch ffenestr bach mewn dinas. Rhowch gynnig arni hi i weld beth allwch chi ei greu!

Plannwch goed, llwyni, blodau, perlysiau, ffrwythau a llysiau sy'n sicrhau cyflenwad da o neithdar a phaill drwy gydol y flwyddyn. Mae gwenyn yn chwilota am fwyd rhwng mis Mawrth a mis Hydref, felly mae planhigion sy'n blodeuo yn gynnar yn y gwanwyn ac yn yr hydref yn arbennig o fuddiol.

Cofiwch arddio mewn dull sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd er mwyn creu hafan ddiogel i bryfed sy'n peillio. Dylech osgoi cynhyrchion sy'n lladd plâu, pryfed, ffwng neu chwyn. Dewiswch hadau a chompost organig fel na fydd cemegau niweidiol yn mynd yn agos at eich planhigion.

Cofiwch fwydo eich pridd er mwyn cynhyrchu blodau cynhyrchiol a chryf. Gwnewch eich compost eich hun a'i daenu'n rheolaidd.

Dewiswch safle heulog ar gyfer planhigion sy'n denu peillwyr – gallwch dyfu mewn cynhwyswyr pe bai angen. Bydd perlysiau'n arbennig o lwyddiannus mewn potiau bach neu fawr neu gafnau – neu hyd yn oed mewn rhigolau muriau.

Canllawiau ar gyfer garddio cyfeillgar i wenyn

Mae arnom angen gwenyn ac mae ein hangen ni ar wenyn!

Yn Nhŷ Hyll, mae gwirfoddolwyr Cymdeithas Eryri wedi bod yn garddio ar ran bywyd gwyllt ers 1990. Ond, ers 2012, mae plannu newydd wedi canolbwyntio ar flodau sy'n darparu bwyd i wenyn mêl a pheillwyr eraill fel gloÿnnod byw a gwyfynod.
Dewch draw i'n gardd i gael eich ysbrydoli!

At the Ugly House, Snowdonia Society volunteers have been gardening for wildlife since 1990. But since 2012 new planting has focused on flowers which provide most food for honeybees and other pollinators such as butterflies and moths.
Visit our garden and be inspired!

www.snowdonia-society.org.uk

01286 685498

info@snowdonia-society.org.uk

Mae'r Tŷ Hyll yn eiddo i elusen cofrestredig Cymdeithas Eryri

Tŷ Hyll is owned by registered charity the Snowdonia Society

Pot Mêl Tŷ Hyll

Cymdeithas Eryri Snowdonia Society

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

Magu murmur yn yr ardd
Create a buzz in your garden

Mae arnom angen gwenyn ac mae ein hangen ni ar wenyn!

We need bees and they need us!

Mae gwenyn yn hanfodol ar gyfer peillio ein planhigion, yn cynnwys y ffrwythau a'r llysiau a dyfir gennym, ac mae'r paill a'r neithdar a gynhyrchir gan flodau yn fwyd hanfodol i wenyn.
Dyma bartneriaeth fyw!

Bees are vital for pollinating our plants, including the fruit and vegetables we grow, and pollen and nectar produced by flowers are vital food for bees. A marriage made in heaven!

Pot Mêl Tŷ Hyll

Cymdeithas Eryri Snowdonia Society

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

We need bees and they need us!

Top tips for bee-friendly gardening

The following top ten tips can work anywhere - from a large garden in the country to a small window box in a city. Have a go and see what you can do!

Plant trees, shrubs, flowers, herbs, fruit and vegetables which give a good supply of nectar and pollen throughout the year. Bees forage from March into October, so early spring and autumn flowering plants are particularly beneficial.

Be an environmentally-friendly gardener to create safe havens for pollinating insects. Avoid products containing pesticides, insecticides, fungicides or herbicides. Try to choose organic seeds and compost to be certain no harmful chemicals reach your plants.

Feed your soil for strong productive flowers. Make your own compost and spread it regularly.

Choose a sunny site for pollinator attracting plants – grow in containers, if necessary. Herbs will be particularly successful in small or large pots or troughs – or even cracks in walls.

Let your herbs flower! Many herbs have really good supplies of nectar and pollen. Grow more than you need for feeding yourself so you are feeding the bees as well.

Include a water feature in your garden – bees need water to process their food and to regulate the humidity in the hive. A shallow pond with stones around the edge is ideal, and will also attract all sorts of other wildlife, but even a topped up saucer of water will be appreciated.

Choose plants with single flowers, and those that are as close to our native species as possible.
Varieties bred to have showy double flowers are often sterile, so they have no stamens covered with pollen, and any nectar is hard for bees to find.

Plant bold colour groups - large swathes of the same flowers are most attractive to honeybees. But small groups are also valuable, particularly those at the top of the bees' visual spectrum – purples, blues, greens, yellows and oranges – or with markings guiding bees to the pollen and nectar.

Create a mini wildflower meadow - sacrifice a corner of your lawn (or all of it!). Remove the turf and fertile topsoil and plant a selection of wildflower plugs or sow perennial or annual wildflower seeds.

Keep bees! Most beekeeping groups will run courses or direct you to where they are run – find out more from the National Beekeeping Centre at Furnace Farm.

Recommended reading:

- Snowdonia Society 'Feed the Bees' leaflet
- The Bee Garden, Maureen Little (2011) Spring Hill
- RHS Plants for pollinators http://www.rhs.org.uk /Gardening/Sustainable-gardening/Plants-for-pollinators

Gadewch i'ch perlysiau flodeuo! Mae gan lawer o berlysiau gyflenwadau da iawn o neithdar a phaill. Tyfwch fwy nag sydd ei angen arnoch eich hun er mwyn bwydo'r gwenyn hefyd.

Cofiwch gynnwys pistyll yn eich gardd - mae angen dwr ar wenyn i brosesu eu bwyd ac i reoli lleithder y cwch gwenyn. Mae pwll bas gyda cherrig o amgylch y cwr yn ddelfrydol, a bydd hefyd yn denu pob math o fywyd gwyllt arall, ond mae hyd yn oed llond soser o ddwr yn werthfawr.

Dewiswch blanhigion sydd ag un blodyn, a rhai sydd cyn agosed â phosib i'n rhywogaethau brodorol. Yn aml mae amrywiaethau a fagwyd i greu blodau dwbl trawiadol yn anffrwythlon, felly ni fydd eu brigerau wedi eu gorchuddio â phaill, a bydd yn anodd i'r gwenyn ddod o hyd i neithdar.

Plannwch grwpiau lliw trawiadol - lleiniau mawr o'r un blodau yw'r mwyaf deniadol i wenyn mêl. Mae grwpiau bach hefyd yn werthfawr, yn enwedig y rhai sydd ar frig sbectrwm gweledol gwenyn - porffor, glas, gwyrdd, melyn ac oren - neu sydd â marciau i arwain gwenyn at y paill a'r neithdar.

Gallwch greu dôl fach o flodau gwyllt - aberthwch gornel fach o'ch lawnt (neu'r cwbl!). Codwch y tywyrch a'r pridd uchaf ffrwythlon a phlannwch ddetholiad o blygiau blodau gwyllt neu heuwch hadau blodau gwyllt parhaol neu flynyddol.

Cadwch wenyn! Mae'r rhan fwyaf o grwpiau cadw gwenyn yn cynnal cyrsiau neu'n gallu eich cyfeirio at fannau sy'n eu cynnal - cewch fwy o wybodaeth o'r Ganolfan Genedlaethol Cadw Gwenyn yn fferm Ffwrnais.

Ewch i ddarllen:

- Taflen 'Bwydo'r Gwenyn' Cymdeithas Eryri
- The Bee Garden, Maureen Little (2011) Spring Hill
- RHS Plants for pollinators http://www.rhs.org.uk /Gardening/ Sustainable-gardening/Plants-for-pollinators